

YSGOL DAVID HUGHES

PORTHAETHWY
YNYS MÔN LL59 5SS

Ffôn: (01248) 712287
Ffacs: (01248) 713919
e-bost:pennaeth.davidhughes@ynysmon.gov.uk



MENAI BRIDGE
ISLE OF ANGLESEY LL59 5SS

Tel: (01248) 712287
Fax: (01248) 713919
e-mail:pennaeth.davidhughes@anglesey.gov.uk

Pennaeth/Headteacher
H Emyr Williams BSc MEd

Gwefan/Website: www.ysgoldavidhughes.org

BWLETIN RHIENI PARENTS' BULLETIN

**EBRILL/APRIL
2014**

RHAI DYDDIADAU PWYSIG

SOME IMPORTANT DATES

Dydd Mawrth/Tuesday 08/04/2014	3.40pm	Noson Rhieni Blwyddyn 8. Year 8 Parents' Evening.
Dydd Mawrth/Tuesday 08/04/2014	4.00-5.30pm	Cyfle i rieni ddod i drafod unrhyw fater gyda'r Pennaeth. An opportunity for parents to discuss any matter with the Headteacher.
Dydd Llun/Monday 14/04/2014 – Dydd Gwener/Friday 25/04/2014		Gwyliau'r Pasg Bydd yr ysgol yn cau am wyliau'r Pasg dydd Gwener, 11 Ebrill ac yn ailagor dydd Llun 28 Ebrill. Easter Holidays The school will close for the Easter Holidays on Friday, 11 April and will re-open on Monday 28 April.
Dydd Llun/Monday 05/05/2014		Calan Mai – Gŵyl Banc May Day – Bank Holiday
Dydd Mawrth/Tuesday 06/05/2014	3.40pm	Noson Rhieni Blwyddyn 10. Year 10 Parents' Evening.
Dydd Mercher/Wednesday 07/05/2014 – Dydd Mawrth/Tuesday 13/05/2014		Cyfnod Profion Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol National Literacy and Numeracy Tests – Blwyddyn/Year 7, 8 + 9
Dydd Gwener/Friday 09/05/2014		Seremoni Cyflwyno Ffeil Cynnydd Blwyddyn 11 Year 11 Progress Files Presentation Ceremony
12/05/2014 – 24/06/2014		Arholiadau allanol TGAU, AS ac A2. External examinations – GCSE, AS and A2 exams.
26/05/2014 – 30/05/2014		Gwyliau Hanner Tymor Half Term Holidays
Dydd Mercher/Wednesday 25/06/2014		Mabolgampau'r ysgol. School Sports Day.
Dydd Mercher/Wednesday 25/06/2014	5.30pm	Cyfarfod i rieni Blwyddyn 12 i drafod mynediad i addysg uwch. Meeting for Year 12 parents to discuss entry into higher education.
Dydd Iau/Thursday 26/06/2014	7.30pm	Seremoni Gwobr Goffa Dafydd Whittall Dafydd Whittall Memorial Prizegiving Ceremony
Dydd Gwener/Friday 04/07/2014		Diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd NI FYDD YSGOL I'R DISGYBLION Training Day for teachers NO SCHOOL FOR PUPILS
07/07/2014 – 18/07/2014		Cyfnod Profiad Gwaith Blwyddyn 10. Year 10 Work Experience period.
14/07/2014 – 18/07/2014		Cyfnod Profiad Gwaith Blwyddyn 12. Year 12 Work Experience period.
Dydd Gwener/Friday 18/07/2014		Yr ysgol yn cau am wyliau'r haf. School closes for the summer holidays.
Dydd Iau/Thursday 14/08/2014		Cyhoeddi Canlyniadau Arholiadau Lefel A/AS AS/A Level Examination Results Published
Dydd Iau/Thursday 21/08/2014		Cyhoeddi Canlyniadau Arholiadau TGAU GCSE Examinations Results Published

ARHOLIADAU

ARHOLIADAU ALLANOL

Mae myfyrwyr **Blynyddoedd 10, 11, 12 a 13** yn brysur yn paratoi ar gyfer arholiadau allanol a fydd yn dechrau ym mis **Mai**. Bydd pob myfyriwr yn cael copi o'i amserlen bersonol a chyfarwyddiadau ynglŷn â'r arholiadau. Mae'n bwysig fod y myfyrwyr yn gyfarwydd â'u hamserlen a bod yr offer cywir (cyfrifiannell ayyb) ganddynt ar gyfer pob arholiad. Disgwylir presenoldeb llawn hyd at yr arholiadau neu fe fydd y myfyrwyr yn colli gwersi pwysig a gwybodaeth hanfodol ynglŷn â'r arholiadau. Os bydd eich mab/merch yn absennol ar fore'r arholiad oherwydd salwch, dylid cysylltu â'r ysgol cyn 8.30 am. Mae'n bwysig cyflwyno nodyn gan y meddyg yn egluro'r absenoldeb.

Dymunwn yn dda iddynt yn ystod y cyfnod holl bwysig hwn.

ARHOLIADAU ALLANOL BLWYDDYN 10

Cynhelir arholiadau allanol TGAU ar gyfer Blwyddyn 10 yn y pynciau isod yn ystod mis Mai a mis Mehefin. **Mae'n hanfodol fod y disgyblion yn bresennol ar y dyddiadau canlynol:**

PWNC	DYDDIAD	AMSER
Addysg Grefyddol	12/05/2014	9.00am
Technoleg Gwybodaeth – Uned 1	14/05/2014	9.00am
Hanes – Uned 3	16/05/2014	9.00am
Bywydeg	10/06/2014	1.00pm
Cemeg	12/06/2014	9.00am
Ffiseg	16/06/2014	9.00am

BLWYDDYN 12 – ARHOLIADAU UG

Bydd myfyrwyr Blwyddyn 12 yn sefyll arholiadau allanol UG ym mis Mai/Mehefin. Caniateir iddynt aros gartref i astudio ar ôl **dydd Gwener, 9 Mai 2014** ond bydd disgwyl iddynt ddychwelyd i'w gwersi ar **ddydd Llun, 9 Mehefin 2014**. Bwriedir cychwyn ar y cyrsiau A2 yn syth ac felly mae presenoldeb llawn yn angenrheidiol os am ddychwelyd i'r ysgol y flwyddyn nesaf.

FFÔN SYMUDOL A CHWARAEWYR CERDDORIAETH/MP3 PERSONOL

Gofynnwn i chi ein helpu i sicrhau nad yw disgyblion yn dod â'r eitemau hyn i'r ysgol, os gwelwch yn dda.

FFÔN SYMUDOL

Fel yr ydych yn ymwybodol, **ni ddylai disgyblion ddod â ffonau symudol i'r ysgol**. Mae gan y byrddau arholi reolau llym a byddant yn dileu marciau'r disgybl os byddant yn cael eu dal gyda ffôn yn eu meddiant mewn arholiadau. Rydym hefyd wedi cael enghreifftiau o ffonau yn amharu ar wersi, disgyblion yn tynnu lluniau gyda camera ar y ffôn heb ganiatâd y person hwnnw, disgyblion yn anfon negeseuon amharchus i'w gilydd ayyb.

Ni fydd yr ysgol yn cymryd cyfrifoldeb am ffonau symudol, chwaraewyr MP3/iPods sydd wedi eu cymryd oddi ar ddisgyblion.

Os bydd ar ddisgybl angen defnyddio ffôn yn ystod y dydd, dylai fynd i weld un o'r Dirprwy Benaethiaid.

CHWARAEWYR CERDDORIAETH PERSONOL/CAMERÂU

Ni chaniateir i ddisgyblion ddod â chwaraewyr cerddoriaeth na chamerâu i'r ysgol. Maent yn peri risg o safbwynt iechyd a diogelwch.

Os bydd disgybl yn gwrthod cadw at y rheol yna bydd rhaid i staff gadw'r peiriant a chysylltu â'r rhieni.

Diolch am eich cydweithrediad.

EXAMINATIONS

EXTERNAL EXAMINATIONS

Years 10, 11, 12 and 13 students are busy preparing for external examinations, which begin in **May**. Every student will receive a personal timetable and instructions concerning the examinations. It is essential that students ensure that they are fully familiar with their timetable and that they have the correct equipment (calculator etc) for each exam. Full attendance is expected up to the examinations or students will miss important lessons and essential information concerning the examinations. If your son/daughter is absent on the morning of an exam due to illness, please contact the school before 8.30 am. A doctor's note explaining the absence must be presented.

We wish them well during this very important time.

YEAR 10

EXTERNAL EXAMINATIONS

External GCSE exams in the following subjects will be held during May and June for Year 10.

It is essential that the pupils are present on the following dates:

SUBJECT	DATE	TIME
Religious Studies	12/05/2014	9.00am
Information Technology – Unit 1	14/05/2014	9.00am
History – Unit 3	16/05/2014	9.00am
Biology	10/06/2014	1.00pm
Chemistry	12/06/2014	9.00am
Physics	16/06/2014	9.00am

YEAR 12 – AS EXAMINATIONS

Year 12 students will be taking external AS examinations in May/June. They will be allowed to revise at home after **Friday, 9 May 2014** but will then be expected back in their lessons on

Monday, 9 June 2014. Work on the A2 courses will begin straight away and so attendance is essential if a return to school is envisaged next year.

MOBILE PHONES AND PERSONAL MUSIC/MP3 PLAYERS

Please help us ensure that pupils do not bring these items to school.

MOBILE PHONES

As you are aware, **mobile phones should not be brought into school**. The examination boards have strict rules and pupils will not receive any marks for the paper or, in some cases, the whole series of examinations if they take a mobile phone into an examination room. We have also had a number of examples of phones disrupting lessons, pupils taking unauthorised photographs of others and the sending of malicious, disrespectful text messages etc. **The school takes no responsibility for mobile phones, mp3 players/iPods that have been confiscated from pupils.** Any pupil requiring access to a phone during the day should see one of the Deputy Headteachers.

PERSONAL MUSIC PLAYERS/CAMERAS

Pupils are not permitted to bring music/MP3 players or cameras into school. These items present a health and safety risk.

If this rule is not adhered to then staff will confiscate the item and contact the parents.

Thank you for your co-operation.

CINIO YSGOL AM DDIM/GRANT GWISG YSGOL

Rydym yn awyddus i sicrhau bod rhieni'n gallu hawlio'r cymorth ariannol sydd ar gael iddynt, ee mae grantiau ar gael gan y Cyngor Sir i ddarparu cinio am ddim i rai disgyblion ac i gynorthwyo rhieni i brynu gwisg ysgol.

CINIO YSGOL AM DDIM

Efallai bod eich plentyn yn gymwys i gael cinio ysgol am ddim os ydych yn derbyn un o'r isod:

- Cymorth Incwm
- Lwfans Chwilio am Waith (Seiliedig ar incwm)
- Credyd Treth Plant (yn unig)
- Gwarant Credyd Pensiwn

GRANT GWISG YSGOL

Mae'n bosib fod gennych hawl i gael grant gwisg ysgol i'ch plentyn os ydych yn derbyn un o'r canlynol:

- Cymorth Incwm
- Lwfans Chwilio am Waith (Seiliedig ar Incwm)
- Lwfans Rhiant Gweddw
- Credyd Treth Plant (yn unig)

Cofiwch fod angen adnewyddu eich cais yn flynyddol. Os na fyddwch yn gwneud cais cyn diwedd y tymor, bydd disgwyl i chi dalu am wisg ysgol/cinio eich plentyn o ddechrau'r tymor. Mae ffurflenni cais ar gael ym Mhrif Swyddfa'r ysgol.

GWISG YSGOL

BLYNYDDOEDD 7 - 11

Trowsus neu sgert ddu (at y penglin) heb unrhyw addurn ee ffrils, taslau ayyb. Crys chwys du gyda logo'r ysgol a chrys polo gwyn gyda logo'r ysgol. Bydd angen cot ysgol dywyll yn ystod tywydd oer/gwlyb. Rydym yn gofyn i ddisgyblion wisgo **esgidiau du (footwear)**. **Ni chaniateir i ddisgyblion wisgo menyg o fewn adeilad yr ysgol.**

BLYNYDDOEDD 12 - 13

Disgwylir i'r myfyrwyr wisgo trowsus neu sgert **blaen** du(at y penglin), crys gwyn gyda siwmpwr gwddw v ddu gyda logo Blwyddyn 12/13 Ysgol David Hughes a thei swyddogol Ysgol David Hughes. Rydym yn gofyn i fyfyrwyr wisgo **esgidiau du (footwear)**. Gofynnwn i fyfyrwyr gydymffurfio a'r wisg a sicrhau eu bod yn gosod esiampl dda i'r plant iau.

Gan ein bod yn teimlo ei bod hi'n bosibl cael nifer o amrywiadau oherwydd lliwiau'r ysgol dyma restr o'r pethau **na** fyddai'n dderbyniol. Efallai bydd angen ychwanegu at y rhestr ar sail profiad/ffasiwn.

- Jeans/Cords/Trowsus 'combat' neu 'cargo'/'leggings'
- Siwmpwr/cardigan amryliw/streipiau
- Trac wisg (top na gwaelod)
- Capiau o unrhyw fath
- Hoodies na thopiau fleece
- Siacedi ee denim neu liw golau
- Esgidiau uchel
- Sgert fer

Nid yw'r ysgol cyn cymeradwyo'r defnydd o golur, ond o'i wisgo disgwylir y defnydd ohono fod yn gynnil.

GWISG YSGOL

BLYNYDDOEDD 10 + 11 (O Fedi 2014 ymlaen)

Yn dilyn awgrymiadau gan Gyngor Ysgol, ymgynghoriad gyda rhieni Blwyddyn 9 a'r cais wedi'i gymeradwyo gan Lywodraethwyr yr ysgol, bydd crys polo piws gyda logo'r ysgol yn opsiynol i ddisgyblion Blwyddyn 10 ac 11 o fis Medi ymlaen.

Bydd llythyr yn cael ei ddsbarthu'n fuan gyda'r manylion o sut i archebu.

FREE SCHOOL MEALS/SCHOOL UNIFORM GRANT

We would like to ensure that parents are able to claim the financial support available to them, eg the County Council provides grants for free school meals for some pupils and to help parents buy school uniform.

FREE SCHOOL MEALS

Your child could be entitled to free school meals if you are in receipt of one of the following:

- Income Support
- Job Seekers Allowance (Income Based)
- Child Tax Credit (Only)
- Guarantee element of State Pension Credit.

SCHOOL UNIFORM GRANT

You may be entitled to a grant towards your child's school uniform if you receive any of the following:

- Income Support
- Job Seekers Allowance (Income Based)
- Widowed Parent's Allowance
- Child Tax Credit (only)

Please note – you need to renew your application annually. If no application has been received from you by the end of term, you will be expected to pay for your child's school uniform/meals from the beginning of term.

Application forms for free meals are available from the school's Main Office.

SCHOOL UNIFORM

YEARS 7 - 11

Plain black skirt (knee length) or trousers, eg, without frills, tassels etc. Black sweatshirt with the school logo and white polo shirt with the school logo. A 'dark' coloured coat will be necessary during wet and/or cold weather. We request that pupils wear **black footwear**. **Pupils are not permitted to wear gloves inside the school building.**

YEARS 12 - 13

The students are asked to wear **plain** black trousers or skirts (knee length), white shirt, V-neck jumper with Year 12/13 Ysgol David Hughes logo and official Ysgol David Hughes tie. We request that students wear **black footwear**. We ask students to conform to this dress code and it is important that they set a good example to younger pupils.

Due to the nature of the school uniform we sometimes find a number of variations. Here is a list of items, which are **not** acceptable. The list is not exhaustive and we reserve the right to extend the list based on experience/fashion.

- Jeans/Cords/Combat or cargo trousers/leggings
- Jumpers/cardigans/multicoloured or striped tops
- Track suit (neither top nor bottom)
- Caps of any sort
- Hoodies or fleece tops
- Jackets eg denim, light coloured
- High-heeled shoes
- Short skirts

The school does not endorse the use of makeup in school, however, if it is worn it should be sparingly applied.

SCHOOL UNIFORM

YEARS 10 + 11 (From September 2014 onwards)

Following suggestions by the School Council, consultation with Year 9 Parents and the request been approved by the School Governing Body, the purple polo shirt with the school logo is optional for Years 10 + 11 pupils from September onwards.

A letter will be distributed shortly with details of how to order.

ESGIDIAU YSGOL / SCHOOL SHOES

Mae'r rheolau ynghylch gwisg ysgol yn datgan yn glir y dylai'r holl ddisgyblion wisgo esgidiau **UNLLIW DU**. Ni chaniateir esgidiau sydd â streipiau , logos, neu unrhyw rannau gwyn neu liw arall. Gofynnir am eich cydweithrediad i sicrhau cysondeb ynghylch y mater hwn os gwelwch yn dda.

*The school rules regarding uniform state clearly that the pupils should wear **BLACK FOOTWEAR**. Shoes with stripes, logos, laces or any other parts which are white or any other colour which is not black do not meet with this expectation. We would very much appreciate your co-operation regarding this matter.*

ADDAS / SUITABLE



ANADDAS / NOT SUITABLE



CERBYDAU MYFYRWYR BLWYDDYN 12/13

Cerbydau Myfyrwyr:

Rhaid i fyfyrwyr wneud cais ysgrifenedig am ganiatâd i barcio ar dir yr ysgol.

Rhoddir cerdyn 'Hawl Parcio' (Parking Permit) a dylid arddangos y cerdyn yn ffenest flaen y car.

Bydd gan yr ysgol hawl i wrthod caniatâd neu i ddiddymu caniatâd os yw myfyrwyr yn gyrru mewn ffordd anghyfrifol ar dir yr ysgol.

Cerbydau ar Safle'r Ysgol – Rheolau

Caniateir i fyfyrwyr Blwyddyn 12+13 barcio eu ceir/cerbydau yn y maes parcio wrth y Ganolfan Hamdden dan yr amodau isod:

1. Mae'n rhaid cofrestru rhif y cerbyd ac enw'r gyrrwr gyda'r ysgol os am barcio ar dir yr ysgol. Er mwyn sicrhau tocyn parcio bydd angen dangos trwydded yrru gyfredol, prawf o yswiriant, a Thystysgrif Cofrestru Cerbyd (V5C).
2. Gellir parcio yn y maes parcio wrth y Ganolfan Hamdden, yn unig, rhwng 8.00am a 5.00pm.
3. Ni chaniateir i unrhyw gerbyd symud o'r maes parcio rhwng 8.45am a 3.30pm, ag eithro cyfnodau 'cytundeb' neu mewn argyfwng. Bydd yn rhaid trafod eithriadau i'r rheol hwn gyda'r Pennaeth neu Bennaeth Blwyddyn.
4. Ni chaniateir gadael tir yr ysgol mewn cerbyd:-
 - yn ystod amser egwyl,
 - yn ystod amser cinio,
 - pan fydd y bysiau ar dir yr ysgol.
5. Mae'r ysgol yn safle risg uchel ac mae angen gyrru yn araf ac yn ofalus iawn ar y safle.

STUDENT VEHICLES - YEAR 12/13

Student Vehicles:

Students must make a written application to park on the school grounds.

A 'Parking Permit' will be given and this should be visible on the car windscreen.

The school has the right to refuse permission or to cancel permission if a student drives in an inappropriate manner on the school grounds.

Vehicles on the School Grounds – Rules

Year 12+13 students will be permitted to park their vehicles in the Sports Centre Car Park provided the following conditions are met:-

1. The vehicle and designated driver must be registered with the school if parking is to be permitted. In order to ensure a parking permit the following documents will need to be seen – current driving licence, proof of insurance and a Vehicle Registration Certificate (V5C).
2. Vehicles can be parked in the Sports Centre Car Park, only, between 8.00am and 5.00pm.
3. No vehicle is to be moved from the car park between 8.45am and 3.30pm. The only exceptions will be agreed 'contract' periods or during an emergency. Any exceptions to this rule must be discussed with the Headteacher or Head of Year.
4. No vehicle is to leave the school grounds:-
 - during break time
 - during lunch time
 - when buses are on the school site.
5. The school site is a high risk area and vehicles must be driven slowly and very carefully whilst on site.

LABELU EIDDO

Gofynnwn i rieni sicrhau bod enwau eich plant ar eu gwisg ysgol, cotiau a bagiau.

Os yw eich plentyn wedi colli eiddo, a fydddech yn holi ym Mhrif Swyddfa'r ysgol, rhag ofn bod rhywun wedi dod o hyd i'r eitem ac wedi ei ddychwelyd.

Os na fydd eitemau coll wedi eu casglu erbyn diwedd Ebrill, yna bydd dim dewis ond cael gwared a'r eitemau.

LABELLING PROPERTY

Could parents please ensure that your child's name is clearly labelled on their school uniform, coat and bag.

If your child has lost any item of property, please check to see if it has been handed in at the Main Office.

If lost items are not collected by end of April, then they will be disposed of.

SBWRIEL

Gofynnwn i ddisgyblion ein helpu i gadw safle'r ysgol yn daclus a diogel drwy beidio â gollwng sbwriel. Mae nifer o finiau wedi eu gosod o gwmpas yr ysgol.

LITTER

We ask pupils to help us keep the school site tidy and safe by not throwing litter. A number of bins are provided around the school.

AILGYLCHU

Er mwyn ceisio lleihau ar sbwriel a gwastraff, mae'r ysgol yn ceisio ailgylchu cymaint o bapur a photeli plastig â phosib.

Ceir bocsys ailgylchu pwrpasol yn yr ystafelloedd dosbarth a'r swyddfydd.

RECYCLING

In order to reduce litter and waste, the school is making an effort to recycle paper and plastic bottles. Recycling boxes are located in the classrooms and offices for this purpose.

GADAEL TIR YR YSGOL

Nid ydym yn caniatáu i ddisgyblion Blynnyddoedd 7-11 adael tir yr ysgol yn ystod yr egwyl foreol. Dim ond Blynnyddoedd 10/11/12/13 sy'n cael mynd allan amser cinio gyda chaniatâd rhieni a 'pass' ysgol.

Nid oes caniatâd i'r disgyblion adael tir yr ysgol ar ôl i'r bysiau eu gollwng wrth yr adeilad yn y bore.

LEAVING THE SCHOOL GROUNDS

Pupils in Years 7-11 are not allowed to leave the school grounds during the morning break.

Only Year 10/11/12/13 pupils are allowed outside of the school grounds at lunch time and only if they have a school pass and parental consent.

Pupils do not have permission to leave the school grounds once they have been dropped off by the buses first thing in the morning.

YSGOL DDI-FWG

Hoffwn eich atgoffa bod ardaloedd y tu mewn a thu allan yr ysgol yn rhai di-fwg. Ni chaniateir ysmegu ar fws mini'r ysgol nac ar y bysiau ysgol 'chwaith. Mae ysmegu yn y manau hyn bellach yn erbyn y gyfraith a byddwn yn cysylltu â rhieni os bydd disgyblion yn cael eu dal yn ysmegu.

SMOKE-FREE SCHOOL

We would like to remind you that smoking is prohibited within the school building and on the school grounds. Smoking is not permitted on the school minibus or school buses either. Smoking in these areas is now against the law. If pupils are caught smoking, the school will contact their parents.

AMDDIFFYN RHAG YR HAUL

Yn y blynyddoedd diwethaf mae achosion o ganser y croen wedi cynyddu'n gyson. Gormod o olau haul ar y croen yw prif achos y math hwn o ganser.

Yn ystod Tymor yr Haf, mae'n debygol y bydd eich plentyn yn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored, ee mabolgampau'r ysgol a gweithgareddau awyr agored a drefnir gan wahanol adrannau. Rydym eisiau i'r disgyblion fwynhau'r haul yn ddiogel, felly **gofynnwn i chi sicrhau bod gan eich plentyn amddiffyniad priodol rhag yr haul yn ystod tywydd poeth.**

Mae mwy o wybodaeth am amddiffyn rhag yr haul a chanser y croen ar gael ar wefan Cancer Research UK: www.sunsmart.org.uk

SUN PROTECTION

Cases of skin cancer have increased steadily over recent years. Over-exposure to sunlight is the main cause of this type of cancer.

During the Summer Term, it is likely that your child will be participating in outdoor activities, eg school sports day and outdoor activities organised by various departments.

We want the pupils to enjoy the sun safely and therefore ask you to **ensure that your child has suitable sun protection during hot weather.**

More information on sun protection and skin cancer is available on the Cancer Research UK website: www.sunsmart.org.uk

AROLYGWYR ARHOLIADAU / EXAM SUPERVISORS

Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn cael ei gyflogi i gynorthwyo i arolygu arholiadau, tybed a fuasech garediced â chysylltu â Miss Clair Pugh. Telir cyflog oddeutu £10.50 yr awr i'r arolygwyr. Diolch yn fawr.

If anyone is interested in being employed to assist in supervising examinations, would you kindly contact Miss Clair Pugh. Supervisors will be paid approximately £10.50 an hour. Thank you.

TYMOR Y GWANWYN / SPRING TERM

2013/2014

DIGWYDDIADAU / EVENTS

<p>Daeth nifer o siaradwyr gwadd i'r ysgol , ee</p> <ul style="list-style-type: none"> • PC Dewi Thomas, Swyddog Cyswllt Ysgolion • Ms Cara Williams, Adran Diogelwch Cymunedol, CSYM • Cynrychiolydd o 'Gorwel' • Swyddog Rhaglen '5 x 60' 	<p>A number of guest speakers visited the school, eg</p> <ul style="list-style-type: none"> • PC Dewi Thomas, Schools Liaison officer • Ms Cara Williams, Community Safety Dept., IOACC • Representative from 'Gorwel' • '5 x 60' Programme Officer
<p>Casglwyd stamps wedi'u defnyddio ar ran Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru yn ystod Rhagfyr. Bydd yr ysgol yn parhau i'w casglu drwy gydol y flwyddyn.</p>	<p>Used postage stamps were collected on behalf of The North Wales Society for the Blind during December. The school will continue to collect during the year.</p>
<p>Cynhaliwyd cyfarfod gyda rhieni disgyblion Blwyddyn 11 i rannu gwybodaeth am Opsiynau 16+. Trefnwyd noson ar gyfer rhieni disgyblion Blwyddyn 9 hefyd i rannu gwybodaeth am ddewisiadau 14+.</p>	<p>A meeting was held at the school for parents of Year 11 pupils, in order to share information about Post 16 Options. A meeting was also arranged for the parents of pupils in Year 9, in order to share information about Post 14 Options.</p>
<p>Bu rhai disgyblion Blwyddyn 9 yn ymweld â Choleg Menai, safle Llangedfni a Bangor ar gyfer sesiynau blasu cyrsiau galwedigaethol Lefel 1/2.</p>	<p>Some Year 9 pupils visited Coleg Menai, Llangedfni and Bangor sites for Level 1/2 Vocational Courses Taster Sessions.</p>
<p>Bu rhai disgyblion Blwyddyn 11 yn ymweld â Choleg Glynllifon ar gyfer sesiynau blasu cyrsiau galwedigaethol Lefel 3.</p>	<p>Some Year 11 pupils visited Coleg Glynllifon for Level 3 Vocational Courses Taster Sessions.</p>
<p>Cynhaliwyd gweithdy opsiynau ôl 16 yn yr ysgol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11.</p>	<p>A post 16 options workshop was held in the school for Year 11 pupils.</p>
<p>Cynhaliwyd cyfarfodydd Cynghorau Blwyddyn ac Ysgol Gyfan y disgyblion yn ystod Tymor y Gwanwyn.</p>	<p>Meetings of the pupils' Year Councils and Whole School Councils were held during the Spring Term.</p>
<p>Hefyd, bu Pwyllgor Bwyd a Ffitrwydd (Grŵp SNAG) yn cyfarfod yn ystod y tymor.</p>	<p>Also, the Food and Fitness Committee (SNAG Group) have been meeting during the term.</p>
<p>Dosbarthwyd adroddiadau disgyblion Blynnydoedd 9-13 yn ystod y tymor, er mwyn darparu gwybodaeth i rieni a disgyblion, ac i alluogi'r ysgol i ymateb i unrhyw arwyddion o dangyflawni.</p>	<p>Pupils in Years 9-13 received a report during this term, to provide information for parents and pupils and to enable the school to respond to any signs of underachievement.</p>
<p>Cynhaliwyd nosweithiau rhieni ar gyfer Blynnydoedd 7, 9 ac 11.</p>	<p>Parents Evenings were held for Years 7, 9 and 11.</p>
<p>Cynhaliwyd arholiadau allanol amrywiol yn ystod y tymor ee modiwlau Lefel A/AS, Lefel Mynediad, Arlwy TG AU, Celf TG AU, arholiadau ymarferol Cerdd a Drama ac arholiadau llafar.</p>	<p>Various external examinations were held during this term, eg A/AS Level modules, Entry Level, GCSE Catering, GCSE Art, Music and Drama practical exams and oral exams.</p>
<p>Mae clwb astudio'n cael ei gynnal ar ôl ysgol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 sy'n dymuno gweithio ar eu gwaith cwrs neu waith cartref a pharatoi ar gyfer eu harholiadau.</p>	<p>Some pupils in Year 11 have been attending an after-school study club where they can work on coursework or homework and prepare for their exams.</p>
<p>Mae grŵp o ddarpar athrawon o Brifysgol Bangor wedi bod yn treulio eu cyfnod ymarfer dysgu gyda ni.</p>	<p>A group of trainee teachers from Bangor University have begun their teaching practice with us.</p>
<p>Bu grŵp bach o ddisgyblion Blwyddyn 7 a 8 gymryd rhan mewn cyrsiau iaith gan gynnwys gweithgareddau anturus, megis beicio mynydd, dringo a chyfeiriannu, yn ystod Ionawr a Chwefror.</p>	<p>A small group of Year 7 and 8 pupils took part in language courses incorporating adventurous activities including mountain biking, climbing and orienteering, during January and February.</p>
<p>Cafwyd gweithgaredd hybu ymwybyddiaeth o Gymreictod i rai disgyblion Blwyddyn 7 gyda Menter Iaith Môn.</p>	<p>A Welsh language promotion activity was arranged for some Year 7 pupils with Menter Iaith Môn.</p>
<p>Cafwyd cyflwyniad yn yr ysgol gan Mr David Hawley, Coleg Pearson i ddisgyblion Blwyddyn 11.</p>	<p>A presentation was given by Mr David Hawley, Pearson College to Year 11 pupils.</p>
<p>Daeth Alice Knight, cyn disgybl i roi sgwrs ar Feddyginiaeth i aelodau Clwb Gwyddoniaeth.</p>	<p>Alice Knight, a former pupil gave a talk on Medicine to the Science Club members.</p>

<p>Mae grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 11 wedi cwblhau cyrsiau Iechyd a Diogelwch, Cymorth Cyntaf a Diogelwch Tân.</p>	<p>A group of Year 11 pupils have completed a Health and Safety, First Aid and Fire Safety courses.</p>
<p>Cynhaliwyd gwasanaethau Gŵyl Ddewi i holl ddisgyblion yr ysgol. Fel rhan o'r dathliadau, bu myfyrwyr o Flynnyddoedd 12 a 13 yn gwerthu cennin Pedr yn yr ysgol, ar ran elusen cancr Marie Curie.</p>	<p>St David's Day services was held for all the pupils of the school. As part of the celebrations, Year 12 and 13 students sold daffodils in school, on behalf of Marie Curie Cancer Charity.</p>
<p>Cynhaliwyd cyfarfodydd Fforwm 'Llais Ni' yn ystod Tymor y Gwanwyn.</p>	<p>Meetings of the 'Llais Ni' Forum were held during the Spring Term.</p>
<p>Cynhaliwyd cystadleuaeth dylunio poster i wella ymwybyddiaeth am Ddiwrnod Dim Ysmygu ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7. Rhoddwyd gwobr o gof bach i'r goreuon.</p>	<p>A 'design a poster' competition was held for pupils in Years 7. Pupils had to design a poster to raise awareness of No Smoking Day. The best posters won a memory stick.</p>
<p>Fel rhan o ddathliadau Diwrnod y Llyfr ar 6 Mawrth, dosbarthwyd tocyn llyfr gwerth £1 i bob disgybl. Trefnwyd amryw o weithgareddau, gan gynnwys cystadleuaeth 'Adnabod Cymeriadau' i ddisgyblion Blwyddyn 7 + 8 .</p>	<p>As part of the World Book Day celebrations on 6 March, all pupils received a £1 book token. Various activities were organised, including a competition to 'Name the Character' for Years 7 + 8 pupils.</p>
<p>Mae unigolion a thimau'r ysgol wedi bod yn cymryd rhan mewn sawl gêm/cystadleuaeth, e.e. Cystadleuaeth Traws Gwlad Ynys Môn, Cystadleuaeth Traws Gwlad Eryri, Pencampwriaeth Traws Gwlad Ysgolion Cymru, Twrnament Pêl-rwyd yr Urdd, Twrnament Pêl-rwyd Môn, Twrnament Pêl-rwyd Eryri, Athletau Dan Do Môn ac Athletau Dan Do Cymru.</p>	<p>Individuals and school teams have been participating in a number of games/competitions, eg Anglesey Cross Country Competition, Eryri Cross Country Competition, Welsh Cross Country Championship, Urdd Netball Tournament, Anglesey Netball Tournament, Eryri Netball Tournament, Anglesey Indoor Athletics and the Wales Indoor Athletics.</p>
<p>Mae nifer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau '5 x 60', sef ymgyrch Cyngor Chwaraeon Cymru i annog pobl ifanc i wneud o leiaf 5 awr o ymarfer corff yr wythnos. Mae amrywiaeth eang o weithgareddau ar gael, gan gynnwys Clwb Cymunedol Badminton ar ôl ysgol, gwersi dringo, gwersi golff a gwersi caiacio.</p>	<p>A number of pupils have been participating in '5 x 60' activities as part of the Sports Council for Wales' campaign to encourage young people to do at least 5 hours' exercise every week. The wide range of activities available include Community Badminton Club after school, bouldering lessons, golf lessons and kayaking lessons.</p>
<p>Cafwyd cynhyrchiad 'I think I can wait' gan Cwmni Theatr Cat's Paw i holl ddisgyblion Blwyddyn 9 yn yr ysgol.</p>	<p>A production 'I think I can wait' by Cat's Paw Theatre Company was performed to all Year 9 pupils at the school.</p>
<p>Daeth cynrychiolwyr o'r elusen 'Choose Life' i'r ysgol i gynnal gweithgareddau atal troseddu gyda disgyblion Blwyddyn 9.</p>	<p>Representatives from the charity 'Choose Life' held crime prevention activities at the school for Year 9 pupils.</p>
<p>Bu rai disgyblion Blwyddyn 9-11 yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth Clogfeinio Ysgolion Uwchradd Môn yn ddiweddar.</p>	<p>Some Year 9-11 pupils took part in the Anglesey Secondary Schools Bouldering Competition recently.</p>
<p>Bu grŵp bach o ddisgyblion Blwyddyn 11 gymryd rhan mewn Gweithdy i Ddisgyblion Mwy Abl a Thalentog gyda chynrychiolydd o Brifysgol Rhydychen.</p>	<p>A small group of Year 11 pupils took part in a More Able and Talented Pupils' Workshop with a representative from Oxford University.</p>
<p>Cafwyd gweithgaredd Gwyddoniaeth 'Techniquiest' i rai disgyblion Blwyddyn 9 +10 yn yr ysgol.</p>	<p>A Science 'Techniquiest' activity was held for some Year 9 and 10 pupils in the school.</p>
<p>Mae Clwb Menai wedi cychwyn am sesiynau wythnosol i ddarpar ddisgyblion y dalgylch gael profiad o ymweld â'r ysgol, drwy gymryd rhan mewn chwaraeon megis, Pêl-droed a Dawnsio Stryd a Zumba</p>	<p>Club Menai has started weekly sessions for prospective pupils from the catchment area to have experience of visiting the school, by taking part in sports, such as Football and Street Dance and Zumba.</p>
<p>Cafwyd Diwrnod Iechyd a ffitrwydd a'r Effaith o Ysmygu i ddisgyblion Blwyddyn 8 yn yr ysgol.</p>	<p>A Health and Fitness and the effect of smoking day was arranged for Year 8 pupils at the school.</p>
<p>Cafwyd gweithdy cyfryngau gyda C2 - Radio Cymru i rai disgyblion Blwyddyn 10.</p>	<p>A media workshop was held for some Year 10 pupils at the school with C2 - Radio Cymru.</p>
<p>Cynhaliwyd diwrnod sgiliau yn yr ysgol ar 18 Mawrth, gyda phob disgybl o Flwyddyn 7-13 yn mynychu sesiynau 'datblygu sgiliau' yn hytrach na'r gwersi arferol.</p>	<p>The school held a skills day on 18 March, with all pupils in Years 7-13 attending sessions designed to develop skills rather than their usual lessons.</p>
<p>Cafwyd cyflwyniad i grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 9 gan 2 aelod o staff 'Oyster Catcher' am gyfleoedd sydd ar gael drwy'r Academi Arlwyio Timpson.</p>	<p>A presentation was given by 2 staff members of the 'Oyster Catcher' to a group of Year 9 pupils about the opportunities available through the Timpson's Chef Academy.</p>
<p>Cynhaliwyd arholiadau mewnol i ddisgyblion Blwyddyn 10.</p>	<p>Internal Examinations were held for Year 10 pupils.</p>

YMWELIADAU ADDYSGOL / EDUCATIONAL VISITS

<p>Bu grŵp bach o fyfyrwyr Blwyddyn 12 ddanfon cynnyrch a bwyd i Fanc Bwyd Ynys Môn cyn y Nadolig yng Nghaergybi i'w dosbarthu i deuluoedd anghenus.</p>	<p>Some Year 12 students took food and produce to the Anglesey Food Bank before Christmas in Holyhead to be distributed to needy families.</p>
<p>Bu grŵp bach o fyfyrwyr Blwyddyn 12+13 mewn Sesiynau Blasu Cymdeithas Seicoleg Prydain ym Mhrifysgol Bangor yn ddiweddar.</p>	<p>Some Year 12+13 students took part in the British Psychology Society Taster Sessions at Bangor University recently.</p>
<p>Bu rai myfyrwyr Blwyddyn 12 gymryd rhan mewn Gweithdy Coleg Magdalene, Caergrawnt yn ddiweddar.</p>	<p>Some Year 12 students took part in a Magdalene College, Cambridge workshop recently.</p>
<p>Cymerodd grŵp bach o ddisgyblion Blwyddyn 9 ran mewn Prosiect Phoenix yng Ngorsaf Dân Amlwch am wythnos.</p>	<p>A small group of pupils from Year 9 participated in Project Phoenix at Amlwch Fire Station for a week.</p>
<p>Aeth grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 11 i weld perfformiad o'r ddrama 'Othello' yn Venue Cymru, Llandudno.</p>	<p>A group of Year 11 pupils went to see a performance of the play 'Othello' at the Venue Cymru in Llandudno.</p>
<p>Aeth grŵp o fyfyrwyr Blwyddyn 13 sy'n astudio Saesneg i ddarlithoedd 'Chaucer the Wife of Bath' ym Manceinion.</p>	<p>A group of Year 13 students who study English went to 'Chaucer The Wife of Bath' Lectures in Manchester.</p>
<p>Bu rai o ddisgyblion Blwyddyn 8 + 9 ar gwrs Sgïo i Montgenevre yn Ffrainc am wythnos ym mis Ionawr.</p>	<p>Some Year 8+9 pupils went on a skiing course to Montgenevre in France for a week in January.</p>
<p>Ymwelodd disgyblion Blwyddyn 9 â Chanolfan Holocaust Beth Shalom yn Laxton, Swydd Nottingham.</p>	<p>Year 9 pupils visited the Beth Shalom Holocaust Centre in Laxton, Nottinghamshire.</p>
<p>Trefnwyd taith gwaith maes ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 12 sy'n astudio Daearyddiaeth; buont yn edrych ar faterion trefol ym Manceinion.</p>	<p>A field trip was arranged for student studying Geography in Year 12; they studied issues in urban areas in Manchester.</p>
<p>Bu rai disgyblion yn Clogfeinio yng Nghanolfan Wal Ddringo Indy, Llanfairpwll, fel rhan o weithgaredd 5x60.</p>	<p>Some pupils went Bouldering at the Indy Climbing Wall, Llanfairpwll, as part of the 5x60 activity.</p>
<p>Bu myfyrwyr sy'n astudio Daearyddiaeth ym Blwyddyn 13 yn ymweld â Môn Hydroponics ar fferm Cae Gwyn, Carmel, Llanerchymedd.</p>	<p>Students studying Geography in Year 13 visited Môn Hydroponics at Cae Gwyn Farm, Carmel, Llanerchymedd.</p>
<p>Yn dilyn y Gweithdy i Ddisgyblion Mwy Abl a Thalentog gyda chynrychiolydd o Brifysgol Rhydychen, bu'r un disgyblion ymweld â Choleg St Peter's yn Rhydychen.</p>	<p>Following the More Able and Talented Pupils' Workshop with a representative from Oxford University, the same pupils visited St Peter's College in Oxford.</p>
<p>Cymerodd grŵp bach o ddisgyblion Blwyddyn 11 ran mewn gweithgaredd 'Camu mlaen at Iechyd' ym Mangor.</p>	<p>A small group of pupils from Year 11 participated in the 'Step-up to Health' activity in Bangor.</p>
<p>Aeth rai disgyblion Blwyddyn 11 a 13 sy'n astudio Hanes ymweld â'r Amgueddfa Rhyfel ym Manceinion.</p>	<p>Some Year 11 and 13 pupils who study History visited the Imperial War Museum in Manchester.</p>
<p>Aeth rai myfyrwyr Blwyddyn 13 sy'n astudio Addysg Grefyddol ymweld â chymunedau Iddewig yn Llundain.</p>	<p>Some Year 13 students who study Religious Education visited Jewish communities in London.</p>
<p>Aeth rai myfyrwyr Blwyddyn 13 sy'n astudio Cymdeithaseg a Seicoleg ymweld ag amryw leoliadau yn Llundain.</p>	<p>Some Year 13 students who study Sociology and Psychology visited various locations in London.</p>
<p>Cymerodd grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 9 a 10 ran mewn Diwrnod Ecowyddoniaeth ym Mhrifysgol Bangor fel rhan o Wyl Wyddoniaeth Bangor yn ddiweddar.</p>	<p>A group of Year 9 and 10 pupils took part in an Ecoscience Day at Bangor University as part of the Bangor Science Festival recently.</p>
<p>Aeth grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 10-13 sy'n astudio Drama i weld perfformiad o'r ddrama 'Kinder Transport' yn Theatr Clwyd yr Wyddgrug.</p>	<p>A group of Year 10-13 Drama pupils went to see a performance of the play 'Kinder Transport' at the Theatre Clwyd in Mold.</p>
<p>Bu rai myfyrwyr Blwyddyn 12 fynychu Cynhadledd UCAS ym Mharc Haydock, Glannau Merswy yn ddiweddar.</p>	<p>Some Year 12 students attended an UCAS Conference at Haydock Park, Merseyside recently.</p>
<p>Cymerodd grŵp bach o fyfyrwyr Blwyddyn 12 ran mewn gweithgaredd '3D Technocamps' ym Mhrifysgol Bangor.</p>	<p>A small group of students from Year 12 participated in the '3D Technocamps' activity at Bangor University.</p>

LLWYDDIANNAU/SUCCESSSES

<p>Llongyfarchiadau i amryw ddisgyblion ar gael eu derbyn i fudiadau cerddorol am y flwyddyn 2014, gan gynnwys Ensemble Cerddorol Cenedlaethol, Cerddorfa Ieuencid Prydain, Cerddorfa Genedlaethol Ieuencid Cymru, Band Pres Ieuencid Cymru a Band Chwyth Ieuencid Cymru.</p>	<p>Congratulations to various pupils on being accepted to numerous musical societies for the year 2014, including the National Musical Ensembles, British Youth Orchestra, Welsh National Youth Orchestra, Welsh Youth Brass Band and the Welsh youth Wind Band.</p>
<p>Cafwyd llwyddiant ym myd chwaraeon yn ystod tymor yr Hydref.</p>	<p>Teams and individuals celebrated success in various sports during the Autumn term.</p>
<p>Llongyfarchiadau i Lyn Isak, Blwyddyn 12, Andrew Smith, Joshua Caldicott ac Alicia Mills, Blwyddyn 13 ar ennill y rownd ranbarthol Gogledd Cymru yng nghystadlaeth "Debating Matters" yn Ninbych ym mis Rhagfyr. Buont yn ymlaen i Fanceinion i rownd Gogledd Orllewin a Gogledd Cymru oedd yn brofiad gwerthfawr iddynt.</p>	<p>Congratulation to Lyn Isak, Year 12, Andrew Smith, Joshua Caldicott ac Alicia Mills, Year 13 on winning the North Wales regional round of the "Debating Matters" competition held in Denbigh in December. They then went to the North West and North Wales round in Manchester which was a valuable experience for them.</p>
<p>Llongyfarchiadau mawr i Katherine Clarke, Elis Roberts, Catrin Cheung, Caroline Zhu, Daniel Blight, John Thompson, Fiona Coutts ac Ioan Bebb myfyrwyr Blwyddyn 12 a 13 am gymryd rhan yng nghystadlaeth UK Maths Challenge yn ddiweddar. Enillodd Katherine Clarke a Caroline Zhu le yn y gystadlaeth Olympaidd Brydeinig, ac fe aeth Elis ymlaen i gystadlu yn yr her Kangaroo i ddisgyblion hyn.</p>	<p>Huge congratulations to Katherine Clarke, Elis Roberts, Catrin Cheung, Caroline Zhu, Daniel Blight, John Thompson, Fiona Coutts and Ioan Bebb Year 12 and 13 students taking part in the competition UK Maths Challenge recently. Katherine Clarke and Caroline Zhu won a place in the British Olympics competition, and Elis went on to compete in the Senior Kangaroo Challenge.</p>
<p>Llongyfarchiadau i Mollie Davies a ddoth yn 10fed yng Nghystadlaeth Trawsgwlad Y Geltaidd yn Antrim, Gogledd Iwerddon. O fewn yr un ras daeth yn 22ain drwy Brydain.</p>	<p>Congratulations to Mollie Davies who finished 10th in the Celtic National Cross Country Event held in Antrim, Northern Ireland. She also finished 22nd in the same race throughout Britain.</p>
<p>Llongyfarchiadau i ddisgyblion yr ysgol am eu llwyddiannau yn Athletau dan Do Môn yn ddiweddar. Byddent yn cynrychioli'r sir yn Athletau dan Do Cymru yng Nghwmbrân.</p>	<p>Congratulations to pupils of the school on their success at the Anglesey Indoor Athletics competition. They will now represent the county at the Wales Indoor Athletics competition in Cwmbran.</p>
<p>Llongyfarchiadau mawr i aelodau Band Pres Ieuencid Biwmares a ddaeth yn bencampwyr Prydain mewn cystadlaeth ym Mlackpool. Coronwyd Pippa Scourse fel unawdydd gorau'r gystadlaeth, a'r rhai oedd yn chwarae'r euphoniums hefyd.</p>	<p>Congratulations to the members of the Beumaris Junior Brass Band on being crowned British Champions in a competition in Blackpool. Pippa Scourse was named best soloist of the competition, and the band's euphonium players were the best.</p>
<p>Llongyfarchiadau i rai disgyblion Blwyddyn 9-11 ar ennill cystadlaeth Clogfeinio Ysgolion Uwchradd Môn yn ddiweddar. Byddent nawr yn mynd ymlaen i gystadlaeth Gogledd Cymru.</p>	<p>Congratulations to some Year 9-11 pupils who won the Anglesey Secondary Schools Bouldering competition recently. They will now proceed to the North Wales competition.</p>
<p>Llongyfarchiadau i Anna Hume, Blwyddyn 10 ar gael ei dewis i chwarae i dîm Hoci dan 16 Gogledd Cymru.</p>	<p>Congratulations to Anna Hume, Year 10 who has been chosen to play for the North Wales Under 16's Hockey team.</p>
<p>Llongyfarchiadau i dîm dan 16 Pêl-rwyd ar ennill Twrnament Eryri. Byddent nawr yn cystadlu yn nhwrnament Cymru ddiwedd mis.</p>	<p>Congratulations to the Under 16's Netball team on winning the Eryri tournament. They will now compete in the Welsh championships end of March.</p>
<p>Llongyfarchiadau i Elin Mererid Williams B113 ac Aaron Hughes B112 ar gael eu derbyn ar brosiect Lessons from Auschwitz gan yr Holocaust Educational Trust. Fel rhan o'r prosiect bunt yn ymweld â gwlad Pwyl.</p>	<p>Congratulations to Elin Mererid Williams Yr13 and Aaron Hughes Yr12 on achieving a place on the Holocaust Educational Trust's Lessons from Auschwitz Project. They have visited Poland as part of the project.</p>
<p>Mae Daniel Monaghan a Katherine Clarke wedi ennill Ysgoloriaeth Evan Morgan i astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth.</p>	<p>Daniel Monaghan and Katherine Clarke have won the Evan Morgan scholarship to study at Aberystwyth University.</p>
<p>Bu amryw ddisgyblion yn llwyddiannus yn Eisteddfod Sir yr Urdd, a byddent nawr yn cynrychioli'r sir yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mala ddiwedd Mai.</p>	<p>A few pupils were successful in the County Urdd Eisteddfod, and will now represent the county at the Urdd's National Eisteddfod in Bala end of May.</p>
<p>Llongyfarchiadau i Eban Geal Blwyddyn 7 a Guto Tegid Blwyddyn 8 ar eu llwyddiannau gyda Gwaith Creadigol 3D yng Nghystadlaeth CDT yr Urdd, rhanbarth Môn.</p>	<p>Congratulations to Eban Geal Year 7 and Guto Tegid Year 8 on their successes with 3D Creative Work in the Urdd's CDT Competition Anglesey round.</p>

Llongyfarchiadau i **Elan Gilford Blwyddyn 10** are gael ei dewis i gario'r baton dros Fôn yn **Eisteddfod yr Urdd** ym Mala ym mis Mai.

Llongyfarchiadau i ddisgyblion yr ysgol am eu llwyddiannau yn **Athletau dan Do Cymru** yn ddiweddar. Daeth tim y Bechgyn dan 15 oed Môn a Gwynedd yn Bencampwyr Cymru ac Alex Burgess yn Bencampwr Unigol Cymru. Daeth y timau eraill o Fôn a Gwynedd yn ail a thrydydd agos iawn drwy Gymru yn eu hoedrannau.

Llongyfarchiadau i **Ffion Elin Davies**, Blwyddyn 11 ar gael ei dewis i fynychu **ymarferion sioe gerdd** yn y West End o fis Mai ymlaen.

Llongyfarchiadau i **Pippa Scourse**, Blwyddyn 11 am ennill lle ym **Mand Pres Ieuencid Ewrop**.

Llongyfarchiadau i dîm Clogfeinio'r ysgol a ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth **Clogfeinio Gogledd Cymru** yn ddiweddar.

Congratulations to **Elan Gilfrod Year 10** on being chosen to carry the baton representing Anglesey at the **Urdd Eisteddfod** in Bala end of May.

Congratulations to pupils of the school on their success at the Wales **Indoor Athletics** competition. The Anglesey and Gwynedd Under 15 Boys Team were crowned Welsh champions whilst Alex Burgess became the Wales Individual Champion. The other Anglesey and Gwynedd teams came a close second and thir through Wales in their age groups.

Congratulations to **Ffion Elin Davies**, Year 11 on being chosen to attend **musical rehearsals** at the West End from May onwards.

Congratulations to **Pippa Scourse**, Year 11 on gaining a place in the **Europe Youth Brass Band**.

Congratulations to the school's bouldering team that came second in the **North Wales Schools Bouldering** competition recently.

ELUSENNAU A GEFNOGWYD / CHARITIES SUPPORTED

Elusennau a gefnogwyd yn ystod y tymor yma/Charities supported this term:

Aid for Aids - **£112.82**

Save the Children - **£52.35**

Hosbis yn y Cartref - **£83.55**

Alder Hey Children's Charity - **£1476.64**

Macmillan Cancer Support - **£87.81**

Ambiwylans Awyr Cymru - **£672.98**

Marie Curie Cancer Care (Apêl Daffodils) - **£56.90**

British Heart Foundation - **£807.23**

CLWB CANT ONE HUNDRED CLUB

Enillwyr Mis Chwefror 2014/ February 2014 Winners

Mrs Louise Jones	22	£30.00
------------------	----	--------

Enillwyr Mis Mawrth 2014 / March 2014 Winners

Mrs Jayne Emsley	29	£30.00
------------------	----	--------

Enillwyr Mis Ebrill 2014 / April 2014 Winners

Mr Carl Shipton	5	£30.00
-----------------	---	--------

Cafwyd llwyddiant arbennig mewn amrywiol gystadlaethau yn **Eisteddfod Sir yr Urdd**. Bydd nifer o ddisgyblion yn mynd ymlaen i gynrychioli'r ysgol a'r sir yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mala, ddiwedd Mai.

Ysgol David Hughes was very successful in various competitions in the regional **Urdd Eisteddfod**. A number of pupils will now go on to represent the school and the county in the Urdd National Eisteddfod in Bala end of May.

Dyma'r canlyniadau/The results:	
Unawd Merched/Girls Solo Bl/Yr 7-9	2. Siwan Hedd Mason
Unawd Bechgyn/Boys Solo Bl/Yr 7-9	1. Rhys Last
Deuawd/Duet Bl/Yr 7-9	2. Siwan ac Elin
Unawd Bechgyn Bl 10 a dan 19 oed/ Boys Solo Yr 10 and under 19yrs old	1. Steffan Lloyd Owen 3. Huw Harvey
Parti Merched/Girls Party Bl/Yr 7-9	2. Ysgol David Hughes
Côr Merched S.A. Bl 13 ac iau/ S.A. Girls Choir Yr 13 and under	1. Ysgol David Hughes
Côr Bechgyn T.B. Bl 13 ac iau/ T.B. Boys Choir Yr 13 and under	1. Ysgol David Hughes
Côr S.A.T.B. Bl 13 ac iau/ S.A.T.B. Choir Yr 13 and under	1. Ysgol David Hughes
Ensemble Lleisiol Bl 13 ac iau/ Vocal Ensemble Yr 13 and under	1. Ensemble Ysgol David Hughes
Cyflwyno Alaw Werin Unigol/Folk Song Solo Bl/Yr 7-9	1. Siwan Hedd Mason
Unawd Llinynnol/String Solo Bl/Yr 7-9	1. Elin Swyn Cheung
Unawd Piano/Piano Solo Bl/Yr 7-9	1. Elin Lloyd Griffiths
Unawd Pres/Brass Solo Bl/Yr 7-9	1. Ifan Wyn Erfyl Jones 2. Erin Maloney
Ensemble Bl/Yr 7-9	1. Ensemble Ysgol David Hughes
Unawd Chwythbrennau Bl 10 a dan 19 oed/ Wind Instrument Solo Yr 10 and under 19yrs old	1. Catrin Gwen Round 2. Siwan Tudur
Unawd Llinynnol Bl 10 a dan 19 oed/ String Solo Yr 10 and under 19yrs old	1. Elin Kervegant
Unawd Pres Bl 10 a dan 19 oed/ Brass Solo Yr 10 and under 19yrs old	1. Pippa Scourse
Unawd Cerdd Dant Bl 7-9/ Cerdd Dant Yr 7 – 9	1. Siwan Hedd Mason 3. Aziliz Kervegant
Deuawd Cerdd Dant /Cerdd Dant Duet Bl/Yr 7-9	1. Siwan ac Elin
Unawd Cerdd Dant Bl 10 a dan 19 oed/ Cerdd Dant Solo Yr 10 and under 19yrs old	2. Steffan Lloyd Owen 3. Ffion Elin Davies
Deuawd Cerdd Dant Bl 10 a dan 19 oed/ Cerdd Dant Duet Yr 10 and under 19yrs old	1. Huw a Steffan
Triawd neu Bedwarawd Cerdd Dant Bl 10 a dan 19 oed/ Cerdd Dant Trio or Quartet Yr 10 and under 19yrs old	1. Hogia Ysgol David Hughes
Côr Cerdd Dant Bl 13 ac iau Cerdd Dant Choir Yr 13 and under	1. Côr Cerdd Dant Ysgol David Hughes
Dawns Hip-Hop/Stryd/Disgo Bl 7-9 Hip-Hop/Street/Disco Dancing Yr 7-9	2. Elan Parry
Dawns Hip-Hop/Stryd/Disgo Bl 10 a dan 19 oed Hip-Hop/Street/Disco Dancing Yr 10 and under 19yrs old	2. Manon Haf Naven
Llefaru Unigol Bl 10 a dan 19 oed / Recitation Solo Yr 10 and under 19yrs old	1. Lois Angharad Williams
Unawd all o Sioe Gerdd Bl 10 a dan 19 oed/ Solo from a Musical Yr 10 and under 19yrs old	1. Huw Harvey 3. Ffion Elin Davies

NEWYDDION O'R CHWECHED/ NEWS FROM THE SIXTH FORM

Rydym unwaith eto wedi cael llawer o ymwelwyr yn sgwrsio gyda'r Chweched yn ddiweddar gan gynnal sesiynau difyr a llawn gwybodaeth. Mae'r Fagloriaeth Gymreig yn rhoi cyfle inni ddysgu llawer oddi wrth bobl yn y gymuned.

Daeth Mr John Perkins atom i son am brosiect Umeed, a'r ysgol sydd wedi ei hagor ym Mhacistan er cof am Emma, merch John a Lis Perkins, oedd yn ddisgybl yn yr ysgol hon.

Rydym hefyd wedi cynnal sesiynau ar y dirwasgiad a'i effaith arnom i gyd gydag aelodau o U3A Bangor, Mr Ken Jones Pentraeth Automotive a'r ymgynghorydd ariannol Mr David Morgan.

Mae'r disgyblion hefyd wedi bod yn brysur yn trefnu gweithgareddau. Trefnwyd Brwydr y Bandiau Ysgol David Hughes gan y Clwb Cerdd; parhawyd â gwersi Siapaneg yn y Clwb Ieithoedd; bu sesiynau difyr yn y Clwb Gwyddoniaeth; gwahoddwyd Mr Heron o'r Gwasanaeth Iechyd i'r gwasanaeth i son am gancr; cafwyd stondin gacennau i ddathlu Wythnos Masnach Deg a mwy o gacennau wedyn yn ogystal â diwrnod teis dwl i godi arian i gymuned yn Tanzania; ac ar ddiwedd mis Mawrth bu dwy o flwyddyn 12 yn darllen Papur Menai i'r deillion. Digon o bethau i gadw pawb yn brysur!

Rydym hefyd yn falch iawn o'n disgyblion bob amser, ond rhaid llongyfarch rhai yn arbennig ar ennill ysgoloriaethau yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i Katherine Clarke a Daniel Monaghan ar ennill ysgoloriaethau i Brifysgol Aberystwyth, ac i John Mahon ar ennill ysgoloriaeth i Brifysgol Bangor.

Dymunwn yn dda iddyn nhw i gyd.

Once again many visitors have come in to speak with the Sixth Form recently, holding interesting and informative sessions. The Welsh Baccalaureate gives us an opportunity to learn from other people in the community.

Mr John Perkins came in to talk about the Umeed project, and the school that has been opened in Pakistan in memory of Emma, daughter of John and Lis Perkins, who was a pupil at this school.

We have also had sessions on the recession and its effect on us all by members of U3A Bangor, Mr Ken Jones Pentraeth Automotive and the financial adviser Mr David Morgan.

The pupils have also been busy organising activities. The Music Club organised the Ysgol David Hughes Battle of the Bands; Japanese lessons have continued in the Languages Club; there have been interesting sessions in the Science Club; Mr Heron from the Health Service was invited to the assembly to speak about cancer; there was a cake stall to celebrate Fair Trade Week and more cakes in addition to a crazy tie day to raise money for a community in Tanzania; and at the end of March two students from year 12 read Papur Menai for the blind. Plenty of things to keep everyone busy!

We are always proud of our pupils, but some deserve special congratulations for winning scholarships recently. Congratulations to Katherine Clarke and Daniel Monaghan on winning scholarships to Aberystwyth University, and to John Mahon for winning a scholarship to Bangor University.

We wish them all the best.